Y GIST GYMUNEDOL
Menter gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon Cymunedol a Gweithgarwch Corfforol.

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grantiau o hyd at £1,000 ar gyfer gweithgareddau sydd yn:

— annog mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach
— codi safon y gweithgareddau presennol

Y ffurflen gais yw eich cyfle chi i ddweud wrthym ni am eich prosiect a pham fod ei angen. Dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a bod yn realistig ynghylch yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni.

Os ydych angen cymorth i gwblhau eich cais, cysylltwch â Swyddog Cist Gymunedol eich Awdurdod Lleol.

Pwy all wneud cais am grant?
Mae'r cynllun yn agored i unrhyw grwp sy'n dymuno trefnu gweithgareddau'n ceisio cael mwy o bobl i fod yn fwy egnïol yn amlach. Gall hyn olygu gweithgareddau newydd neu godi safon y gweithgareddau presennol.

Mae'n rhaid i'r grwp feddu ar gyfrif banc yn enw'r sefydliad.

Pwy all ddim gwneud cais am grant?
Nid yw'r cynllun yn agored i aelodau unigol o'r cyhoedd, ysgolion cynradd neu cyrff cysylltiol yn trefnu gweithgareddau ar gyfer plant, nac ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn y cynllun 5x60.

Hefyd, ni ellir cyllido'r gweithgareddau a ganlyn:

— Gweithgareddau corfforol fel garddio, DIY, gwelliannau amgylcheddol, dawnsio perfformiad neu sgiliau syrcas
— Y gweithgareddau sy'n bodoli eisoes
— Gweithgareddau prif lif a gyllidir gan lywodraeth ganolog neu leol
— Prosiectau a ystyrir yn rhan o gostau rhedeg arferol o ddydd i ddydd sefydliad.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â Swyddog Cist Gymunedol yr Awdurdod Lleol.

Am beth fydd y grant yn talu?

Ystyrir costau cysylltiedig â sicrhau bod y prosiect yn llwyddiannus.

Fel rheol, dim ond ar gyfer yr 20 sesiwn cyntaf yn y prosiect y darperir cymorth grant, wedi hynny, mae disgwyl i'r prosiectau fod yn hunangynhaliol. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n ddoeth ystyried sut fyddwch yn cyllido'r prosiect wedi i arian y grant gael ei wario.

Am beth na fydd y grant yn talu?

— Cefnogaeth ariannol i unigolion
— Eitemau personol o ddillad, offer neu git
— Costau gweinyddu parhaus
— Arlwyo a lletygarwch
— Medalau, tystysgrifau neu dlysau
— Teithiau cartref neu dramor
— Costau newid, atgyweirio neu gynnal a chadw offer presennol